Croeso Cymru

CROESO CYCLISTS WELCOME BEICWYR

CROESO WALKERS WELCOME CERDDWYR

Croeso Beicwyr
Croeso Cerddwyr

Meini Prawf ar Gyfer Parciau Carafan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Croeso Beicwyr

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan fod yn aelod o, a pharhau i fod yn aelod o, Gynllun Parciau Gwyliau Graddedig Prydain a bodloni'r oll o'r canlynol:

Cyfleusterau a Gwasanaethau

- Dylai cyfleuster ar wahân a diogel fod ar gael gyda ffynhonnell gwresogi ar gyfer sychu dillad ac esgidiau awyr agored.
- Ardal dan do gellir ei gloi ar gyfer storio beiciau a philynnau dros nos, gyda mynedfa ddirwystr.
- Mynediad i gyfleusterau gyda chyflenwad dŵr ar gyfer golchi beiciau a dillad awyr agored. Dylai fod wedi ei labelu a hysbysebu yn glir a dylai fod ar wahân i'r pwyntiau dŵr yfed, pibell ddwˆr ac/neu fwced a chlwt i fod ar gael.
- Pecyn trwsio beic a theiars brys ar gael yn ganolog, a'i hysbysebu ar gael yn y dderbynfa. Eitemau yr awgrymir eu cynnwys: liferi teiars, pecyn trwsio teiars, iriad, pwmp y gellir ei ddefnyddio gyda gwahanol falfiau, gellir codi tâl am hyn.
- Pecyn cymorth cyntaf wedi ei ddarparu fel sy'n addas i faint y busnes, gellir ei leoli mewn pwynt canolog a'i hysbysebu ym mhob carafán ar osod a'r dderbynfa.
- Dylid darparu cyfleusterau golchi dillad, gwasanaeth golchfa neu fanylion y cyfleuster golchfa agosaf.

Trefniadau Bwyd

- Yn achos gwersyllwyr, dylid cynnig diod boeth ar gyrraedd i bawb (h.y. cyn neu wrth godi eu pabell).
- Darparu manylion a chyfarwyddiadau i'r siop fwyd agosaf, os nad oes un ar y safle. Gall hyn fod yn bwynt gwybodaeth canolog, hwylus a dylid hefyd ei roi yn y carafannau sydd ar osod.
- Darpariaeth, ar gais, ar gyfer archebu eitemau bwyd sylfaenol cyn cyrraedd i westeion yn cyrraedd heb gar.

Darpariaeth Gwybodaeth

Gall hyn fod yn bwynt gwybodaeth canolog, hwylus a gellid ei roi yn y carafannau sydd ar osod.

- Manylion yr allfeydd llogi beiciau agosaf a siopau trwsio / darnau beiciau agosaf ar gael.
- Manylion y meddyg, deintydd, ysbyty, a fferyllwyr 24 awr a milfeddygon (os derbynnir anifeiliaid anwes) agosaf. Dylai mynediad i'r wybodaeth yma fod yn amlwg ac ar gael 24 awr.
- Mapiau a llyfrau ar gael er gwybodaeth ar feicio yn yr ardal / manylion llwybrau a chymdeithasau beicio lleol a rhanbarthol.
- Gwybodaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus leol a chyfleusterau cludo beiciau, neu ddarparu manylion cyswllt.
- Hefyd manylion unrhyw gwmnïau cludo bagiau a thacsis yn gweithredu'n lleol.
- Arddangos gwybodaeth tywydd yr ardal mewn man amlwg ac/neu rifau ffôn y gall gwesteion ffonio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, os oes angen.
- Gwybodaeth ar atyniadau a digwyddiadau lleol ac/neu ddarparu rhif ffôn a chyfarwyddiadau i'r ganolfan groeso leol.
- Darparu gwybodaeth ar leoliad ac amserau agor y siopau agosaf, yn cynnwys cyfarwyddiadau.
- Manylion y banc / twll yn y wal, ffôn cyhoeddus, swyddfa'r post, blwch post a siopau awyr agored agosaf.
- Arddangos manylion gwasanaethau achub, yn cynnwys Tîm Achub y Mynydd a Gwylwyr y Glannau (os yn berthnasol) a datgan rhif ffôn 999 (112 o ffôn symudol).
- Arddangos manylion Côd Cefn Gwlad, www.countrysidecodewales.org.uk neu 0845 1306 229.
- Manylion bwytai lleol a thafarndai yn cynnig bwyd.
- Os derbynnir archebion grŵp, dylai gwybodaeth fod ar gael i grwpiau ar gyfleusterau storio, cyfleusterau/opsiynau bwyta, a gwybodaeth cyn cyrraedd angenrheidiol.

Croeso Cerddwyr

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan fod yn aelod o, a pharhau i fod yn aelod o, Gynllun Parciau Gwyliau Graddedig Prydain a bodloni'r oll o'r canlynol:

Cyfleusterau a Gwasanaethau

- Dylai cyfleuster ar wahân a diogel fod ar gael gyda ffynhonnell gwresogi ar gyfer sychu dillad ac esgidiau awyr agored.

- Mynediad i gyfleusterau gyda chyflenwad dŵr ar gyfer golchi esgidiau a dillad awyr agored. Argymhellir crafwyr esgidiau. Dylai fod wedi ei labelu a hysbysebu yn glir a dylai fod ar wahân i'r pwyntiau dŵr yfed, pibell ddŵr ac/neu fwced a chlwt i fod ar gael.

- Pecyn cymorth cyntaf wedi ei ddarparu fel sy'n addas i faint y busnes, gellir ei leoli mewn pwynt canolog a'i hysbysebu ym mhob carafán ar osod a'r dderbynfa.

- Dylid darparu cyfleusterau golchi dillad, gwasanaeth golchfa neu fanylion y cyfleuster golchfa agosaf.

Trefniadau Bwyd

- Yn achos gwersyllwyr, dylid cynnig diod boeth ar gyrraedd i bawb (h.y. cyn neu wrth godi eu pabell).

- Darparu manylion a chyfarwyddiadau i'r siop fwyd agosaf, os nad oes un ar y safle. Gall hyn fod yn bwynt gwybodaeth canolog, hwylus a dylid hefyd ei roi yn y carafannau sydd ar osod.

- Darpariaeth, ar gais, ar gyfer archebu eitemau bwyd sylfaenol cyn cyrraedd i westeion yn cyrraedd heb gar.

Darpariaeth Gwybodaeth

Gall hyn fod yn bwynt gwybodaeth canolog, hwylus a gellid ei roi yn y carafannau sydd ar osod.

- Manylion y meddyg, deintydd, ysbyty, a fferyllwyr 24 awr a milfeddygon (os derbynnir anifeiliaid anwes) agosaf. Dylai mynediad i'r wybodaeth yma fod yn amlwg ac ar gael 24 awr.
- Mapiau a llyfrau ar gael er gwybodaeth ar gerdded yn yr ardal / manylion llwybrau a chymdeithasau cerdded lleol a rhanbarthol.
- Gwybodaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus leol, neu ddarparu manylion cyswllt. Hefyd manylion unrhyw gwmnïau cludo bagiau a thacsis yn gweithredu'n lleol.
- Arddangos gwybodaeth tywydd yr ardal mewn man amlwg ac/neu rifau ffôn y gall gwesteion ffonio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, os oes angen.
- Gwybodaeth ar atyniadau a digwyddiadau lleol ac/neu ddarparu rhif ffôn a chyfarwyddiadau i'r ganolfan groeso leol.
- Darparu gwybodaeth ar leoliad ac amserau agor y siopau agosaf, yn cynnwys cyfarwyddiadau.
- Manylion y banc / twll yn y wal, ffôn cyhoeddus, swyddfa'r post, blwch post a siopau awyr agored agosaf.
- Arddangos manylion gwasanaethau achub, yn cynnwys Tîm Achub y Mynydd a Gwylwyr y Glannau (os yn berthnasol) a datgan rhif ffôn 999 (112 o ffôn symudol).
- Arddangos manylion Côd Cefn Gwlad, www.countrysidecodewales.org.uk neu 0845 1306 229.
- Manylion bwytai lleol a thafarndai yn cynnig bwyd.
- Os derbynnir archebion grŵp, dylai gwybodaeth fod ar gael i grwpiau ar gyfleusterau storio, cyfleusterau / opsiynau bwyta, a gwybodaeth cyn cyrraedd angenrheidiol.

Manylion Cyswllt

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan **www.cymru.gov.uk/twristiaeth** a chlicio ar 'Graddio'.

© Hawlfraint y Goron 2012
WG15697 / G/MH/4380 / 0612